Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Beth rydyn ni wedi ei wneud o 2022 i 2023

## Adroddiad am waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Blynyddol 2022 - 2023**'.

**Awst 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:



**Gwefan:** www.cenedlaethaurdyfodol.cymru

**E-bost:** cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Ffôn**: 02921 677 400

**Twitter:** @futuregencymru

**Instagram**: @futuregencymru

**LinkedIn**: Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247**

# Cynnwys

**Beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng 2022 a 2023 ..................................... 4**


1. Y pethau pwysig sydd yn wynebu Cymru a'i dyfodol....................... 5

2. Cefnogi a herio cyrff cyhoeddus i ddilyn y ddeddf yma.................. 6

3. Gweithio gydag eraill i wneud newidiadau ....................................... 7

4. Gwneud yn siŵr ein bod yn rhedeg ein sefydliad yn dda ............... 8

# Beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng 2022 a 2023



Mae deddf yng Nghymru  o'r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** a ddaeth allan yn 2015.



Pwrpas y gyfraith yma ydy gwneud Cymru'n lle gwell i fyw nawr ac yn y dyfodol.



**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ydy Derek Walker**. Ei waith ydy gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yng Nghymru yn dilyn y ddeddf yma. Mae ganddo dîm o staff sy'n gweithio gydag ef.




Fe wnaeth Derek ddechrau ar y swydd yma ym mis Mawrth 2023. Fe wnaeth gymryd drosodd gan Sophie Howe, oedd yn gwneud y gwaith am 7 mlynedd o'i flaen.




Dyma adroddiad am beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar bedwar prif faes.

# 1. Y pethau pwysig sydd yn wynebu Cymru a'i dyfodol

Fe wnaethon ni roi cyngor i Lywodraeth Cymru am bethau fel:



1. Delio gyda **newid yn yr hinsawdd**. Mae hyn yn meddwl bod y blaned mynd yn boethach oherwydd y pethau fel olew a nwy rydyn ni yn eu defnyddio ar gyfer pŵer.




2. Trin pobl yn deg. Er enghraifft, mae rhai pobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd lle maen nnw wedi cael eu geni neu lle mae eu hynafiaid wedi cael eu geni.



3. Beth ddylai Llywodraeth Cymru wario arian arno.



4. Costau byw. Mae hyn yn meddwl costau bwyd, gwresogi a chostau byw bob dydd eraill.



Rydyn ni yn credu bod Llywodraeth Cymru yn gwneud llawer o bethau da, ond mae llawer mwy i'w wneud.

## 2. Cefnogi a herio cyrff cyhoeddus i ddilyn y ddeddf yma



Mae cyrff cyhoeddus yn sefydliadau sy'n rhedeg gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er enghraifft, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd, addysg a llawer o rai eraill.



Fe wnaethon ni helpu'r sefydliadau hyn i weithio mwy gyda'i gilydd a rhannu syniadau.



Rydyn ni wedi rhoi cyngor iddyn nhw am lawer o wahanol bynciau. Er enghraifft, tai, bwyd a newid yn yr hinsawdd.

## 3. Gweithio gydag eraill i wneud newidiadau




Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill, fel busnesau a grwpiau cymunedol i roi cyngor.



Maen nhw hefyd yn rhoi cyngor i ni.



Rydyn ni wedi bod yn siarad â phobl ifanc ac yn rhedeg rhaglen hyfforddi iddyn nhw o'r enw Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.




Rydyn ni wedi cael digwyddiad i ddathlu gwaith 100 o bobl sydd wedi gwneud pethau i helpu i wneud Cymru'n lle gwell.



Rydyn ni hefyd wedi siarad â rhai gwledydd eraill sydd wedi bod eisiau dysgu oddi wrthyn ni. Fel Canada, Iwerddon a'r Almaen.

# 4. Gwneud yn siŵr ein bod yn rhedeg ein sefydliad yn dda



Mae Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol yn cynnwys tîm o bobl.



Rydyn ni’n ceisio gwneud yn siŵr  ein bod ni’n cael ein rhedeg mewn ffordd sy’n garedig ac sy’n helpu Cymru.



Fe wnaethon ni fideos am beth rydyn ni’n ei wneud ar bynciau fel:




- Iechyd a llesiant




- Siarad Cymraeg



- Gwario arian yn ddoeth




Mae'r fideos ar gael yma [www.futuregenerations.wales/cy/ein-diwylliant](www.futuregenerations.wales/cy/ein-diwylliant)




Fe wnaethon ni ysgrifennu **cynllun gweithredu gwrth-hiliol**. Mae hwn yn gynllun am beth rydyn ni'n ei wneud i drin pobl yn deg, dim ots o ble maen nhw'n dod, o ble mae eu teulu yn dod neu beth maen nhw'n ei gredu.




Pan basiodd Sophie Howe, y Comisiynydd cyntaf, ei swydd i Derek Walker, y Comisiynydd nawr, fe wnaethon ni edrych ar rai o'r pethau sydd wedi digwydd yn ystod y 7 mlynedd diwethaf. Mae rhai enghreifftiau yn:



- Mae gan Gymru gyfraddau ailgylchu da ac rydyn ni eisiau bod yn ddiwastraff erbyn 2050.



- Mae Cymru'n gweithio i stopio problemau iechyd.



- Mae Cymru'n addysgu plant mewn ffyrdd newydd i'w paratoi'n well ar gyfer y dyfodol.



Dyma fideo am y gwaith yma:
[www.futuregenerations.wales/cy/impact/effaith-y-ddeddf](www.futuregenerations.wales/cy/impact/effaith-y-ddeddf)